
Tai a Chymunedau: Y Cyngorydd Lynda Thorne

UCHELGAIS PRIFDDINAS



Deallwn fod cael cartref o safon mewn cymuned lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel a chysylltiedig yn bwysig i bob un o'n dinasyddion. Gwyddwn fod dod o hyd i'r cartref cywir yn peri pryder go iawn i lawer o bobl. Mae prisiau tai yn uchel, nid yw rhentu'n cynnig y diogelwch hirdymor angenrheidiol, ac mae'r rhestr aros tai yn rhy hir. Gwyddwn hefyd fod y cynnydd yn nifer y bobl sy'n wynebu amddifadedd a digartrefedd yn annerbyniol. Rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae Cyngor Caerdydd yn un o lond drwn o awdurdodau lleol sydd wedi ymrwymo i adeiladu tai Cyngor newydd. Mae hyn yn ddechrau gwych, ond rydyn ni am fynd ymhellach. Ar draws y ddinas mae'r CDLI yn darparu ar gyfer adeiladu mwy na 41,000 o gartrefi newydd erbyn 2026. Defnyddiwn y cyfle y mae'r twf cyflym hwn wedi'i greu i gynnig mwy o gartrefi diogel, fforddiadwy a safonol ledled Caerdydd. Rydyn ni hefyd am sicrhau bod ein rhestr aros tai yn deg, bod pobl yn deall pam fod yn rhaid i ni flaenoriaethu rhai pobl dros eraill, a'n bod yn gweithredu'n gyflym i helpu'r digartref.

Mae economi gref yn hanfodol i drechu tlodi, ond nid yw ffocws ar greu swyddi'n ddigon ar ei ben ei hun. Rhaid i ffocws strategol ar greu swyddi ddod law yn llaw â chwalu rhwystrau i waith – beth bynnag y bônt – a helpu pobl i mewn i swyddi a gyrfaoedd da. Bydd y Weinyddiaeth hon yn gweithio gyda phartneriaid i helpu i chwalu'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu wrth geisio dod o hyd i a chadw swydd, yn cydlynu ein gwasanaethau i mewn i waith, yn cefnogi pob person a theulu y mae'r Diwygiad Lles yn effeithio arnynt ac yn cyflwyno'r Credyd Cynhwysol.

Byddwn yn:

- Dechrau drwy adeiladu 1,000 o dai Cyngor drwy'r Cynllun Cartrefi Caerdydd a datblygu mentrau tai arloesol eraill.
- Gweithio gyda datblygwyr i gynnig mwy na **6,500 o dai fforddiadwy erbyn 2026 drwy'r Cynllun Datblygu Lleol** ac atgyfnerthu ein dull gweithredu o ran datblygu tai, gan ystyried buddsoddiad strategol sy'n mynd i'r afael â'r galw am bob math o dŷ, megis tai cymdeithasol, tai fforddiadwy a thai sy'n cefnogi gofal ychwanegol a byw'n annibynnol.
- Lleihau nifer y tai sy'n peri problemau a thai gwag drwy'r **Polisi Cartrefi Gwag**.
- **Codi safonau yn y sector tai rhent preifat** drwy:
 - Sicrhau bod landlordiaid preifat yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.
 - Cynnal cynllun Rhentu Doeth Cymru Llywodraeth Cymru cynllun cofrestru a thrwyddedu Cymru gyfan – sy'n gweithio i atal asiantau a landlordiaid twyllodrus rhag gosod a rheoli eiddo.
- **Gostwng lefelau cysgu ar y stryd yn y ddinas** drwy gyflwyno'r Strategaeth Cysgu ar y Stryd gyda phartneriaid, gan gynnwys:
 - Mabwysiadu polisi 'Dim Noson Gyntaf ar y Stryd'.
 - Treialu dulliau gweithredu newydd, gan gynnwys model 'Tŷ yn Gyntaf' sy'n symud pobl sy'n cysgu ar y stryd yn syth o'r strydoedd i mewn i gartref.
- **Cefnogi'r rheini y mae'r Diwygiad Lles yn effeithio arnynt a helpu mwy o bobl i ddod o hyd i swyddi sy'n rhoi urddas a balchder iddynt** drwy weithio gyda phartneriaid i ddatblygu gwasanaethau i mewn i waith ymhellach a darparu rhwydwaith o gyfleoedd gwirfoddoli.
- **Buddsoddi mewn cymunedau lleol** i'w helpu i gyflawni eu huchelgeisiau, gyda gwaith penodol yn cael ei wneud i gwblhau adfywiad Canolfan Siopa'r Maelfa a darparu Hybiau Cymunedol newydd yn Llanedern a Llanisien, ymestyn Hyb Llaneirwg a datblygu Hyb Trelái a Chaerau ymhellach gyda'n partneriaid.
- **Helpu i wneud cymunedau Caerdydd yn llefydd mwy diogel i fyw** drwy weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a hyrwyddo cynhwysiant ledled y ddinas.
- Cynnal rhwydwaith o wasanaethau llyfrgell hygrych.
- Rhoi cymunedau lleol wrth wraidd ein gweithrediadau drwy lansio **Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol** newydd a datblygu **Cynlluniau Cynnwys y Gymuned** gan roi llais i bobl i lywio gwasanaethau'r Cyngor, a helpu i gysylltu pobl a chynghorwyr â darparwyr gwasanaeth lleol a gweithgareddau sy'n digwydd yn eu cymdogaethau.